

Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Cyflwynwyd gan Glinig y Gyfraith Abertawe

Cwestiwn 15: Beth yw'ch barn ar y darpariaethau a nodir yn y Bil drafft ynghylch:

- a. Aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol
- b. Y broses enwebu arfaethedig

(a) Gwneir y cyflwyniad hwn gan Glinig y Gyfraith Abertawe, sy'n rhan o Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r Clinig wedi bod yn cynnig gwasanaeth *pro bono* drwy gydol y flwyddyn ers mis Mawrth 2017 pan sefydlwyd Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder. Ers hynny, rydym wedi bod yn cynnal prosiectau mewn cyfraith carchar, cyllid cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion eithriadol, desg gymorth ar gyfer achwynwyr yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Abertawe ac, ers mis Tachwedd 2017, rydym wedi bod yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth cychwynnol.

Ein nod yw ategu'r gwasanaethau cyngor cyfreithiol sydd eisoes ar gael, gan gynnwys undebau llafur, yn hytrach na'u disodli, yn ogystal ag ategu darpariaeth sy'n gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol.

Ers i'r Clinig gael ei sefydlu bron bedair blynedd yn ôl, rydym wedi cynorthwyo dros 700 o bobl drwy ein rhaglenni cyngor cyfreithiol ac addysg gyfreithiol gyhoeddus.

Rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am gyngor ar gyflogaeth yn ystod pandemig Covid 19. Mewn achosion sy'n ymwneud â chyngor ar gyflogaeth a chydarddoldeb, rydym yn gofyn bob tro i'r cleientiaid a ydynt yn aelodau o undeb llafur, a byddem yn eu cyfeirio at eu hundeb llafur gan esbonio y gall undeb llafur wneud gwaith achos ar eu rhan, yn hytrach na'r gwasanaeth cyngor a chymorth cychwynnol rydym yn ei ddarparu. Mae hyn yn arfer cyffredin yn y sector cyngor am ddim.

Fodd bynnag, rydym wedi gweld nad yw llawer o'n cleientiaid yn aelodau o undeb llafur, ac rydym yn awyddus i'r bobl hyn gael eu cynrychioli ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

Rydym wedi cwrdd â chleientiaid nad ydynt wedi sylweddoli y gellir herio eu statws cyflogaeth, a bod eu statws yn dibynnu ar ddadansoddiad ffeithiol o'u sefyllfa ac nid ar y geiriad yn eu contract cyflogaeth, hyd yn oed os yw'n dweud eu bod yn gontractwyr annibynnol. Rydym o'r farn y bydd ceisiadau am gyngor ar gyflogaeth yn cynyddu o ganlyniad i benderfyniad Goruchaf Lys y DU yn *Uber BV and others v Aslam and others* [2021] UKSC 5.

Yn ogystal, mae llawer yn gweithio yn yr economi 'gig' - y twf mewn contractau tymor byr neu waith llawrydd yn lle swyddi parhaol. Am resymau gwahanol, mae'n anodd i'r bobl hyn ffurfio undebau llafur, ond yn aml maent yn troi at y sector cyngor am ddim am gyngor ar gyflogaeth.

Mae llawer yn y grwpiau hyn na fyddant yn gallu fforddio cyflogi cyfreithiwr ac ni fydd cymorth cyfreithiol ar gael oni bai fod eu hachos yn gymwys am gyllid achos eithriadol; fel arall, nid yw cyfraith cyflogaeth yn gymwys am gymorth cyfreithiol.

Rydym yn credu hefyd nad yw strwythur arfaethedig cyfredol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn manteisio'n llawn ar y strwythurau sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a'r Rhwydweithiau Cyngor Rhanbarthol. Mae gan y Rhwydweithiau Rhanbarthol lawer o ddata am anghenion am gyngor y gweithwyr hynny nad ydynt yn aelodau undebau a sut mae hyn wedi newid yn ystod pandemig Covid 19, a fydd yn ddefnyddiol wrth lywio trafodaethau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

(b) Credwn felly y dylai Prif Weinidog Cymru benodi un aelod o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi holi barn y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol, er mwyn i'r sector cyngor am ddim gael cyfle i ddylanwadu ar waith y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

Bydd hyn yn gwella gwaith y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas ag amcanion Gwaith Teg, sef:

- a. Gwella iechyd meddwl a chorfforol
- b. Sicrhau amgylchedd gwaith diogel.
- c. Lleihau anghydraddoldeb ac ehangu mynediad at gyflogaeth.
- d. Lleihau tlodi a sicrhau gwobrwyo teg.
- e. Cynyddu cyfranogiad yn y gweithle ac mewn cymdeithas ddinesig.
- h. Gwella economïau lleol a rhanbarthol i. Cyflawni economi sy'n fwy cadarn, yn fwy modern, yn fwy cynhwysol*

Bydd hefyd yn mynd i'r afael ag un o'r heriau mwyaf i economi Cymru, sef "cyflogaeth ansefydlog ac ansicr."***

Bydd enwebu aelod o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar ôl ystyried barn y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol hefyd yn creu gwell sianelau cyfathrebu rhwng y strwythurau presennol. Felly, byddai'n hwyluso cyfathrebu, nid yn unig rhwng y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol, ond hefyd rhwng y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a Chyngor Partneriaethau'r Trydydd Sector.

*Llywodraeth Cymru, *Dogfen Ymgynghori, Bil drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)* 9 – 10

** Ibid t. 14